# Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

## Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

## Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol – Awst 2010



**Cyf: 449A2010**

Llun trwy garedigrwydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Arweiniwyd Tîm Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gan Alastair McQuaid (Swyddog Arweiniol Asesu Gwelliant) a Nick Selwyn (Cydlynydd Asesu Gwelliant) o dan gyfarwyddyd Jane Holownia (Partner). Mae cydweithwyr o PricewaterhouseCoopers wedi cyfrannu at yr asesiad hwn.

**Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (y Cyngor) yn adeiladu ar drefniadau sy'n gyffredinol gadarn ac yn cydnabod yr angen i atgyfnerthu ei gynlluniau a'i berfformiad mewn rhai meysydd allweddol i ateb yr her o sicrhau gwelliannau yn y dyfodol.**


**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**
**Ffôn: 029 2032 0500**
**Ffacs: 029 2032 0600**
**Ffôn Testun: 029 2032 0660**
**E-bost: info@wao.gov.uk**
**Gwefan: www.wao.gov.uk**



Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a'r 'Datganiad o Gyfrifoldebau' a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei harchwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk



# Cynnwys

Crynodeb 4

Rhan 1: Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser 7

Mae trefniadau'r Cyngor wedi arwain at welliannau yn y gorffennol ond mae'n wynebu risgiau a heriau sylweddol wrth symud ymlaen 7

Mae'r Cyngor wedi sicrhau rhai gwelliannau yn y gorffennol 7

Mae'r Cyngor yn ymwybodol o heriau ariannol y dyfodol ac mae wedi cydnabod yr angen i wella ei drefniadau i ymateb iddynt 8

Mae angen i'r Cyngor ganolbwyntio'n agosach ar ei flaenoriaethau a gwasanaethau allweddol yng nghyd-destun datblygu ei gynllun ariannol tymor canolig a sicrhau bod ei strategaethau a'i drefniadau yn gyson er mwyn helpu i gyflawni'r rhain 8

Rhan 2: Dadansoddi trefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella 10

Mae rhai o drefniadau'r Cyngor yn cefnogi gwelliant ond mae lle i ddatblygu eraill ymhellach i gyflawni newid ar y raddfa ofynnol a'r cyflymder gofynnol 10

Dengys y Cyngor agweddau da o ran arweinyddiaeth, gwaith partneriaeth a gwaith rheoli cyllidebau ond mae'r heriau sydd o'i flaen yn gofyn am ragor o welliannau, yn arbennig mewn rhai meysydd o lywodraethu, ymgysylltu â dinasyddion, cynllunio a rheoli perfformiad 10

Mae'r Cyngor yn wynebu problemau sylweddol o ran cynllunio'r gweithlu 18

# Crynodeb

1 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) (2009) (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal Asesiad blynyddol o Welliant ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru, hynny yw cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

2 Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflawni:

- Asesiad Corfforaethol - sy'n asesu trefniadau awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus;
- Asesiad o Berfformiad – sy'n asesu p'un a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd.

3 Y nod yw cynnal asesiad sefydliad cyfan ym mhob cyngor mewn dull safonol. Gyda'i gilydd, bydd y ddau asesiad hyn yn ffurfio sail adroddiad blynyddol i ddinasyddion, sef yr Adroddiad Gwella Blynyddol.

4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyfuno ei gwaith hi, gwaith ei Harchwilydd Penodedig a gwaith rheoleiddwyr perthnasol eraill, i lywio'r Asesiad Corfforaethol. Gan mai hon yw blwyddyn gyntaf y dull newydd hwn, mae'r asesiad yn un rhagarweiniol, a dylid ystyried yr adroddiad hwn yn adroddiad cynnydd. Bydd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hefyd yn ddiweddariad ar gyfer yr Asesiad Corfforaethol.

5 Ym mis Mawrth 2010, nododd yr Archwilydd Cyffredinol faint yr her ariannol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru mewn adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol 'Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus.' Mae effaith bosibl y gostyngiadau mewn gwariant ar lywodraeth leol hefyd wedi'i hamlygu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol (SOLACE). Ar ôl cael tystiolaeth gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mehefin 2010, nododd CLILC nad oes dianc o'r ffaith y bydd yn rhaid i bob rhan o'r sector cyhoeddus archwilio gwariant cyfredol a'r ddarpariaeth gwasanaethau ac ni ellir datrys y diffygion drwy fod yn effeithlon yn unig.

6 Er mwyn ymateb i'r her hon, mae'n rhaid i awdurdodau lleol gynnal adolygiad sylfaenol o'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt a'r modd y'u cyflwynir, gan gynnwys ystyried opsiynau ar gyfer caffael mwy o wasanaethau yn hytrach na'u darparu a chydweithio. Paratowyd yr asesiad corfforaethol yn y cyd-destun hwn.

7 Mae'r adroddiad hwn ond yn nodi canfyddiadau'r Asesiad Corfforaethol a'i ddiben yw ateb y cwestiwn:

'A yw trefniadau'r Cyngor yn debygol o sicrhau gwelliant parhaus?'

8 Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd lle mae trefniadau'r Cyngor i sicrhau gwelliant yn datblygu a, lle y bo angen, byddwn yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol a gaiff ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2010.



9 Gan mai Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol yw hwn, mae sawl maes lle mai dim ond gwaith cyfyngedig sydd wedi bod yn bosibl ac felly rydym wedi defnyddio ffynonellau gwybodaeth sy'n bodoli eisoes. Lle y bo'n briodol, caiff ein Hasesiad Corfforaethol nesaf yn 2011 ei lywio gan fwy o waith yn y meysydd hyn.

10 Y casgliad sy'n deillio o'n Hasesiad Corfforaethol cyntaf yw **bod Cyngor yn adeiladu ar drefniadau sy'n gyffredinol gadarn ac yn cydnabod yr angen i atgyfnerthu ei gynlluniau a'i berfformiad mewn rhai meysydd allweddol i ateb yr her o sicrhau gwelliannau yn y dyfodol.**

11 Seiliwyd ein casgliad ar ein hasesiad o gynnydd y Cyngor dros amser a dadansoddiad o gryfderau a gwendidau ei drefniadau i ategu gwelliant. Ceir esboniad manwl o'r casgliadau hyn yn Rhan 1 a Rhan 2 o'r adroddiad, yn y drefn honno. Nodwyd y canlynol gennym:

- mae trefniadau'r Cyngor wedi arwain at welliannau yn y gorffennol ond mae'n wynebu risgiau a heriau sylweddol wrth symud ymlaen;
- mae rhai o drefniadau'r Cyngor yn cefnogi gwelliant ond mae lle i ddatblygu eraill ymhellach i gyflawni newid ar y raddfa ofynnol a'r cyflymder gofynnol.

## Meysydd i'w gwella

12 Mae'r asesiad wedi nodi meysydd lle y cynigiwn y dylai'r Cyngor ystyried cymryd camau gweithredu.

**Arddangosyn 1: Meysydd i'w Gwella**

C1 Gorffen a chyhoeddi amcanion gwella, sy'n fersiwn drafft ar hyn o bryd, a diweddaru'r Cynllun Gwella Corfforaethol (CGC) i nodi'n glir weledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y dyfodol.

C2 Gwella systemau i gefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau corfforaethol drwy:

- sicrhau bod Cynlluniau Gwella Gwasanaethau (CGCau) yn canolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau Gwella Corfforaethol y Cyngor;
- sicrhau bod targedau CAMPUS yn cael eu pennu sy'n canolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau'r cynllun corfforaethol.

C3 Gwella rheoli perfformiad drwy:

- llunio ystod gynhwysfawr o ddangosyddion i fesur perfformiad sy'n canolbwyntio'n glir ar reoli gwasanaethau gweithredol;
- gwerthuso perfformiad i nodi meysydd a chyfleoedd ar gyfer gwella;
- sicrhau bod gan reolwyr y sgiliau angenrheidiol i allu dwyn eu staff i gyfrif a mynd i'r afael â meysydd perfformiad gwael mewn modd effeithiol.

## Arddangosyn 1: Meysydd i'w Gwella

C4 Sicrhau bod cynlluniau a gwasanaethau yn gyson â chefnogi'r rhaglen wella drwy:

- gytuno ar yr opsiynau a datblygu cynlluniau manwl i fynd i'r afael â'r diffyg a ragwelir yn y gyllideb;
- cynnal ymarfer cynllunio'r gweithlu traws-sirol i gytuno ar anghenion staffio yn y dyfodol, gan gynnwys cydweithio ag asiantaethau eraill y sector cyhoeddus;
- gwella'r ffordd y mae'r Cyngor yn monitro ac yn gwerthuso effeithiolrwydd partneriaethau i sicrhau eu bod yn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau corfforaethol;
- atgyfnerthu ei drefniadau rheoli risg yn wyneb heriau sy'n dod i'w amlwg;
- llunio a mabwysiadu strategaeth rheoli asedau i ddiwallu anghenion y Cyngor yn y dyfodol;
- gwella cysondeb o ran y modd y mae cynlluniau'n adlewyrchu'r ffordd y mae'r Cyngor yn ymgysylltu â chymunedau a dinasyddion ac yn ymateb i'w hanghenion;
- cwblhau ei adolygiad o bolisïau a gweithdrefnau adnoddau dynol a phenderfynu ar sut y caiff y rhain eu hymgorffori ym mhob rhan o'r sefydliad;
- creu systemau rheoli adnoddau dynol cadarn i gefnogi'r newid diwylliannol sy'n mynd rhagddo o fewn y Cyngor.

C5 Hyfforddi a chefnogi'r Pwyllgor Archwilio i sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldeb statudol i sicrhau bod trefniadau ar waith er mwyn sicrhau gwelliant parhaus yn ei holl swyddogaethau.



# Rhan 1: Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser

## Mae trefniadau'r Cyngor wedi arwain at welliannau yn y gorffennol ond mae'n wynebu risgiau a heriau sylweddol wrth symud ymlaen

### Mae'r Cyngor wedi sicrhau rhai gwelliannau yn y gorffennol

13 Caerffili yw pumed awdurdod mwyaf Cymru o ran ei faint daearyddol ac mae'n gwasanaethu 170,000 o drigolion yn y Fwrdeistref Sirol. Mae ganddo broffil demograffeg dargyfeiriol gyda chanran uwch o blant a phobl o oedran ymddeol na chyfartaledd Cymru. Mae ganddo'r gyfradd gyflogaeth isaf ond un yng Nghymru a lefel gymharol uwch o amddifadedd. Mae canran y disgyblion sydd â hawl i ginio ysgol am ddim (21 y cant) y chweched uchaf allan o 22 o awdurdodau lleol Cymru. Mae tri chwarter wardiau'r Cyngor yn y 50 y cant o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, er nad oes gan y Cyngor nifer o ardaloedd o amddifadedd mawr iawn o'i gymharu ag awdurdodau eraill Cymru.

14 Nid oes gan y weinyddiaeth gyfredol fwyafrif dros bawb ac fe'i harweinir gan glymblaid rhwng Plaid Cymru ac aelodau annibynnol. Mae hyn weithiau yn golygu y gall penderfyniadau gymryd hirach, gan fod angen mwy o amser i ymgysylltu'n gynt mewn trafodaethau er mwyn dod i gytundeb rhwng y grwpiau gwleidyddol gwahanol.

15 Mae gan y Cyngor record dda o gyflawni prosiectau cyfalaf mawr gan gynnwys adeiladu ei bencadlys yn Ystrad Mynach. Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi cwblhau ei brosesau cyflog cyfartal a gwerthuso swyddi. Yn gyffredinol, daeth arolygiad diweddaraf Estyn i gasgliadau cadarnhaol am wasanaethau addysg y Cyngor. Yn yr un modd, canfu'r Adolygiad a Ganolbwyntir ar Wasanaethau Cymdeithasol fod gwasanaethau yn gyffredinol yn dod yn fwy effeithiol.

16 Mae'r Cyngor yn parhau i wella ei berfformiad. O'r 38 o ddangosyddion a bennwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2008-09, roedd 53 y cant ar lefel gyfartalog Cymru Gyfan neu'n rhagori arni. Roedd Caerffili yn chwartel uchaf awdurdodau lleol Cymru yn 2008-09 ar gyfer tua 26 y cant o'i ddangosyddion perfformiad, o'i gymharu â 17 y cant yn ystod y flwyddyn flaenorol. Ar gyfer 46 y cant roedd yn yr ystod ganolrif o'i gymharu â 48 y cant yn ystod y flwyddyn flaenorol, ac yn y chwartel isaf ar gyfer 28 y cant, o'i gymharu â 35 y cant yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae dros 75 y cant o ddangosyddion Strategol Cenedlaethol wedi gwella yn ystod 2008-09. Mae'r rhain yn welliannau blynyddol cyson mewn perfformiad o'u cymharu â blynyddoedd blaenorol.

17 Mae gan y Cyngor 73 o aelodau ac mae'n gweithredu system gabinet gydag wyth aelod ar y weithrediaeth yn dod o glymblaid rhwng Plaid Cymru ac aelodau Annibynnol. Mae'r Cabinet yn cynnwys arweinydd, dau ddirprwy a chwe aelod o'r cabinet sy'n gyfrifol am Addysg a Hamdden; Gwasanaethau Amgylchedd a Thai; Adnoddau Dynol a

Materion Cyfansoddiadol; Rheoli Perfformiad; Cyllid, Adnoddau a Chynaliadwyedd.

18 Mae gan y Cyngor weithlu o tua 9,000 gan ei wneud yn gyflogwr mwyaf y Fwrdeistref Sirol. Mae'r Cyngor yn gwario tua £315 miliwn bob blwyddyn ar redeg gwasanaethau bob dydd, a £13.9 miliwn ar fuddsoddi cyfalaf yn eiddo, ffyrdd a thechnoleg gwybodaeth y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi nodi ôl-groniad cynnal a chadw ac atgyweirio £45 miliwn (ac eithrio'r stoc dai) ac mae'n cwblhau Cynllun Rheoli Asedau manwl i'w gyflwyno gerbron yr Aelodau yn hydref 2010.

### Mae'r Cyngor yn ymwybodol o heriau ariannol yn y dyfodol ac mae wedi cydnabod yr angen i wella ei drefniadau i ymateb iddynt.

19 Y debyg i awdurdodau eraill mae'r Cyngor yn wynebu pwysau sylweddol o ran cyllid a darparu gwasanaethau. Mae'r Cyngor yn cael ei redeg yn dda yn ariannol a hyd yn hyn mae wedi bod mewn sefyllfa ariannol gadarnhaol, gan gynnwys meddu ar lefel dda o gronfeydd wrth gefn. Mae'n adeiladu ar y sefyllfa hon gan ddatblygu ei gynllun ariannol tymor canolig. Fodd bynnag, mae bellach yn wynebu pwysau sylweddol o ran cyllid a darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r Cyngor wedi cytuno ar amserlen ar gyfer cwblhau ei gynllun erbyn mis Hydref 2010. Mae ei ddull o dynnu buddsoddiad yn ôl ac ail-fuddsoddi yn datblygu a bydd angen iddo nodi sut y bydd yn mynd i'r afael â'r diffyg refeniw amcangyfrifiedig o tua £35.7 miliwn.

20 Mae'r Cyngor wedi lleihau nifer ei staff o 140 drwy reoli swyddi gwag, ailstrwythuro gwasanaethau a dileu swyddi gwag. Mae'r Cyngor yn bwriadu sicrhau arbedion ariannol sylweddol pellach wrth symud ymlaen. Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i wella trefniadau'r gweithlu a chynllunio olyniaeth, a fyddai'n hanfodol i helpu'r Cyngor i barhau i wella gan fod traean o weithlu'r Cyngor dros 50 oed.

21 Ym mis Rhagfyr 2009, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol a'r Archwilydd Penodedig Lythyr Blynyddol ar ddatganiadau ariannol, trefniadau corfforaethol a pherfformiad y Cyngor. Daeth i'r casgliad bod yr adolygiadau yn dangos bod y Cyngor yn sicrhau gwelliant, er bod angen gwaith pellach i sicrhau bod pob gwasanaeth yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion corfforaethol a bod trefniadau corfforaethol priodol ar waith i'w cefnogi.

### Mae angen i'r Cyngor ganolbwyntio'n agosach ar ei flaenoriaethau a gwasanaethau allweddol yng nghyd-destun datblygu ei gynllun ariannol tymor canolig a sicrhau bod ei strategaethau a'i drefniadau yn gyson er mwyn helpu i gyflawni'r rhain

22 Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol Cymru wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus a rhoi cyfrif amdano. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi cynlluniau ar gyfer gwella sy'n cynnwys amcanion gwella. Mae'r Cyngor wrthi'n penderfynu ar ei amcanion gwella ar gyfer 2010-11 ac mae'n bwriadu eu cyhoeddi yn haf 2010.

23 Mae nifer o brosiectau mawr naill ai wedi'u cynllunio neu'n mynd rhagddynt i wella gwasanaethau yng Nghaerffili. Yn eu plith mae prosiectau cyfalaf fel cynllun gwella ffyrdd pwysig a gynllunnir ar gyfer Ystrad Mynach, gwelliannau i asedau ysgol yn



gysylltiedig â menter Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, a gwaith i resymoli adeiladau'r cyngor i leihau'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw a gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau. Mae hefyd nifer o brosiectau datblygu gwasanaethau yn mynd rhagddynt yn y Cyngor a fydd yn newid y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu yn y dyfodol yn sylweddol. Yn eu plith mae cynigion ar gyfer trosglwyddo stoc tai'r cyngor a gwaith pellach i ymgysylltu â dinasyddion.

24 Gan symud ymlaen i oes lle ceir llai o gyllid cyhoeddus ac angen i gydweithio mwy, o fewn asiantaethau cyhoeddus a rhyngddynt, mae'n hanfodol bod dull integredig o gynllunio a darparu yn cael ei ddatblygu i gefnogi gwelliant. Hyd yn hyn, nid yw'r Cyngor wedi datblygu, rheoli na chyflawni prosiectau fel rhan o raglen drawsnewidiol gorfforaethol. Er enghraifft, nid yw strategaethau allweddol fel rheoli asedau, cynllunio ariannol tymor canolig a chynllunio'r gweithlu wedi'u hintegreiddio i sicrhau bod strategaeth gynhwysfawr ar gyfer rheoli adnoddau yn y dyfodol o fewn y Cyngor. Fodd bynnag, nes bod y Cyngor yn cytuno ar ei flaenoriaethau drafft ar gyfer gwasanaethau yn derfynol, bydd integreiddio cynlluniau yn parhau i beri problemau.

25 Fel cyrff eraill yn y sector cyhoeddus, mae'r Cyngor yn wynebu'r her o reoli disgwyliadau lleol uwch mewn amgylchedd o doriadau mewn gwariant yn y sector cyhoeddus. Mae'r Cyngor wedi amcangyfrif diffyg cyllidebol o £35.7 miliwn dros y pum mlynedd nesaf. Ar y funud mae gwaith ymgynghori yn mynd rhagddo ar opsiynau i fynd i'r afael â hyn, ac yn anochel bydd angen lleihau darparu a chyflwyno gwasanaethau. Mae dull traddodiadol y Cyngor wedi bod yn fuddiol, ond mae difrifoldeb y sefyllfa ariannol yn golygu y bydd angen dull mwy radical a thrawsnewidiol o ateb yr heriau sydd o'i flaen.

# Rhan 2: Dadansoddi trefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella

## Mae rhai o drefniadau'r Cyngor yn cefnogi gwelliant ond mae lle i ddatblygu eraill ymhellach i gyflawni newid ar y raddfa ofynnol a'r cyflymder gofynnol

**Dengys y Cyngor agweddau da o ran arweinyddiaeth, gwaith partneriaeth a gwaith rheoli cyllidebau ond mae'r heriau sydd o'i flaen yn gofyn am ragor o welliannau, yn arbennig mewn rhai meysydd o lywodraethu, ymgysylltu â dinasyddion, cynllunio a rheoli perfformiad**

### Mae gan y Cyngor arweinyddiaeth gadarn ond mae angen gwella agweddau ar lywodraethu i ateb yr heriau sylweddol o'i flaen

26 Mae pleidleisiau yn y Cyngor llawn yn aml yn agos, ond er nad oes ganddo fwyafrif gwleidyddol, mae'r Cabinet wedi dangos aeddfedrwydd ac wedi llwyddo i gael rhai penderfyniadau anodd drwy'r Cyngor. Er enghraifft, y penderfyniad i roi pleidlais i denantiaid ar ddyfodol stoc dai'r Cyngor. Yn sail i'r arweinyddiaeth mae perthynas waith effeithiol rhwng y Cabinet a'r Tîm Rheoli Corfforaethol lle mae parch ar y ddwy ochr a lefel uchel o ymddiriedaeth.

27 Mae Prif Weithredwr y Cyngor, sydd wedi bod yn ei swydd am bum mlynedd, yn ddiweddar wedi ymddiswyddo gyda'r bwriad o adael cyflogaeth y Cyngor erbyn diwedd y flwyddyn galendr hon. Ar hyn o bryd mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn cynnwys y Prif Weithredwr a phedwar cyfarwyddwr sy'n cwmpasu Gwasanaethau Corfforaethol, Addysg a Dysgu Gydol Oes, Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Amgylchedd. Penodwyd 3 o'r 4 Cyfarwyddwr ers 2006. I osgoi gweithio o fewn 'y seilo', mae gan y Cyfarwyddwyr Corfforaethol gyfrifoldebau am themâu strategol allweddol sy'n gofyn am weithio ac ymgysylltu'n effeithiol ar draws cyfarwyddiaethau. Er enghraifft, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd yw'r hyrwyddwr pobl hŷn. Bydd penderfyniad y Cyngor ar 2 Gorffennaf 2010 i benodi Prif Weithredwr newydd yn gofyn am newidiadau sylweddol i'r trefniadau uwch reoli cyfredol.

28 Pwyllgor Archwilio'r Cyngor sy'n gyfrifol am sicrhau bod y trefniadau ar gyfer llywodraethu da ar waith a'u bod yn gweithredu'n effeithiol. Hyd yma, mae wedi canolbwyntio ar lywodraethu a rheoliadau cyfrifyddu ariannol. Fodd bynnag, mae angen i'r Pwyllgor Archwilio oruchwylio llywodraethu a rheolaethau anariannol yn fwy, a dylai sicrhau bod cyfres gynhwysfawr o gynlluniau a pholisïau sy'n cefnogi gwelliannau ar waith, wedi'u diweddaru ac yn gweithredu'n effeithiol. Dylai'r Pwyllgor Archwilio hefyd sicrhau bod blaenoriaethau, amcanion gwella, prosiectau, risgiau a pherfformiad y Cyngor yn destun craffu, herio a gwerthuso. Dylai'r Cyngor sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio yn cael ei hyfforddi'n a'i gefnogi'n briodol i gyflawni'r dyletswyddau hyn.



**29** O 2010-11 bydd angen i ddatganiadau ariannol y Cyngor ddatgelu Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn lle Datganiad am Reolaeth Fewnol. Mesur cefnogi sylfaenol ar gyfer y Datganiad Llywodraethu yw'r gofyniad i awdurdodau roi Cod Llywodraethu ar waith, sy'n nodi'r egwyddorion a'r trefniadau llywodraethu. Ym mis Ebrill 2010 mabwysiadodd y Pwyllgor Archwilio God Llywodraethu Corfforaethol. Mae'r Cod yn gyson ag arfer da sefydledig[1] ac mae'n rhoi ffocws clir i waith y Pwyllgor Archwilio a'i rôl mewn perthynas â chyfrifoldeb statudol y Cyngor i sicrhau bod trefniadau ar waith i sicrhau gwelliant parhaus yn ei swyddogaethau. Fodd bynnag, er bod y Pwyllgor Archwilio yn cyflawni ei rôl mewn perthynas â'r Cod, nid yw'n gwireddu ei botensial i'r eithaf. Erys diffyg eglurder am ei rôl a rôl y Pwyllgor Polisi ac Adnoddau.

**30** Mae pwyllgorau craffu, heblaw am y Pwyllgor Polisi ac Adnoddau, yn seiliedig ar bedair thema'r strategaeth gymunedol. sef:

- Adfywio;
- yr Amgylchedd Byw;
- Addysg am Oes;
- Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles.

**31** Mae gwaith Pwyllgorau Craffu yn faes i'w ddatblygu. Ystyrir Pwyllgorau Craffu yn aneffeithiol gan rai aelodau, gan fod ganddynt nifer fawr o aelodau a chylchoedd gwaith, sy'n arwain at ddiffyg amser ac adnoddau i alluogi craffu effeithiol ar benderfyniadau a pherfformiadau. Mewn rhai pwyllgorau gwelwyd ymgecru gwleidyddol, sy'n amharu ar eu heffeithiolrwydd.

**32** Mae blaenraglen waith ar waith. Fe'i harweinir gan swyddogion yn gyffredinol, er y gall aelodau ofyn i adroddiadau gael eu cyflwyno ynghynt. Cymysg yw lefel yr her, yn dibynnu ar y pwnc a drafodir a gwybodaeth a phrofiad aelodau'r pwyllgor. Gall arwain at aelodau'n canolbwyntio ar y materion anghywir weithiau. Mae pwyllgorau craffu hefyd wedi canolbwyntio gweithgareddau ar faterion gwasanaeth unigol, neu waith adrannau unigol, yn hytrach na'r agenda gorfforaethol strategol. I fynd i'r afael â hyn gwnaed buddsoddiad sylweddol mewn hyfforddi aelodau, gan gynnwys gweithio gyda chynghorau cyfagos.

**33** Mae pob un o gadeiryddion y pwyllgorau craffu yn aelodau o Blaid Cymru, a gyda'i gilydd fe'u hystyrir yn effeithiol o ran rheoli gwaith y pwyllgorau. Er bod hyn yn gosod y Cadeiryddion mewn sefyllfaoedd a allai arwain at wrthdaro, gan eu bod yn craffu ar waith y weinyddiaeth y maent yn aelodau ohoni, digwydd hyn yn bennaf yn sgîl penderfyniad y gwrthbleidiau i wrthod enwebu eu haelodau i fod yn gadeiryddion craffu.

**34** Ar nodyn cadarnhaol, ategir gwaith y pwyllgorau craffu gan nifer o grwpiau gorchwyl a gorffen. Trefnir y rhain o fewn pwyllgorau ac maent yn caniatáu am graffu ac adolygu dwys mewn meysydd y cytunir arnynt. Er enghraifft, cynhaliwyd y gwaith o adolygu gwasanaethau gwastraff gan bwyllgor craffu'r amgylchedd byw. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio gyda Chyngor Dinas Casnewydd i ddatblygu grŵp gorchwyl a gorffen ar y cyd i ystyried effaith caffael lleol ym meysydd iechyd a llywodraeth leol. Er bod y gwaith o ddatblygu polisïau wedi'i wneud drwy'r grwpiau hyn, llwyddiant cymysg a geir. Mae rhai enghreifftiau o argymhellion yn arwain o adolygiadau yn cael eu cymeradwyo gan y Cabinet, a chred

1 Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol, cyhoeddwyd gan CIPFA a SOLACE yn 2007.

aelodau sy'n cyfranogi nad yw'r grwpiau yn cael digon o adnoddau.

**Mae gan y Cyngor raglen wella eang, fodd bynnag, mae'r hinsawdd ariannol yn ei gwneud yn ofynnol i ganolbwyntio blaenoriaethau'n well ar sicrhau canlyniadau clir i ddinasyddion.**

35 Mae gan y Cyngor CGC ar waith, sy'n pennu cyfeiriad a blaenoriaethau strategol y Cyngor wrth symud ymlaen. Mae'r CGC yn nodi 13 o flaenoriaethau strategol sy'n gysylltiedig â themâu'r Strategaeth Gymunedol. Llywiwyd y gwaith o ddatblygu'r CGC gan nifer o weithgareddau gan gynnwys yr asesiad risg ar y cyd, dadansoddiad o ddata perfformiad allweddol a gwaith partneriaethau strategol. Caiff cynnydd yn erbyn y CGC ei fonitro ddwywaith y flwyddyn gan y Cabinet a'r Tîm Rheoli Corfforaethol. Cafodd aelodau eu cynnwys yn y broses o ddatblygu a chytuno ar flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor y llynedd ac ystyrir bod dealltwriaeth dda ohonynt yn y Cyngor.

36 Mae dulliau mesur a rheoli perfformiad yn cael eu hatgyfnerthu. Mae cardiau sgorio Ffynnon ar gyfer monitro perfformiad yn erbyn targedau gwasanaeth unigol a'r CGC yn cael eu datblygu, ynghyd â sesiynau herio perfformiad rheolaidd sy'n cynnwys Aelod y Cabinet dros Berfformiad, Aelodau Cabinet â phortffolio a Chyfarwyddwyr. Cynhelir pwyllgorau craffu ar berfformiad hefyd ddwywaith y flwyddyn ym mhob un o'r pum pwyllgor craffu. Mae'r Cyngor yn defnyddio Ffynnon i roi darlun o berfformiad gwasanaeth ac mae newydd ddechrau cyflwyno adroddiadau eithriadau i'r Tîm Rheoli Corfforaethol i amlygu perfformiad sy'n dirywio neu danberfformiad mewn gwasanaethau yn erbyn Dangosydd Strategol Cenedlaethol.

37 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo gael mwy o wybodaeth ansoddol a chanlyniadau am berfformiad i fesur yr effaith y caiff ei wasanaethau ar ddinasyddion. Ar hyn o bryd, yn gyffredinol mae gweithgareddau rheoli perfformiad yn canolbwyntio ar ddangosyddion perfformiad cenedlaethol yn hytrach na chanlyniadau.

38 Uned Rheoli Perfformiad ganolog sy'n gyfrifol am ddatblygu a chydlynu'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau corfforaethol. Caiff y gwaith o gyflawni blaenoriaethau corfforaethol ei gydlynu drwy Gynlluniau Gwella Gwasanaethau a gyhoeddir gan bob gwasanaeth. Datblygwyd canllawiau cynllunio ar gyfer adrannau gan gynnwys templedi at ddefnydd gwasanaethau wrth ddatblygu eu Cynlluniau Gwella Gwasanaethau. Yn eu plith mae canolbwyntio ar feysydd allweddol fel cynaliadwyedd a chydraddoldeb. Mae'r Uned Rheoli Rhaglenni yn gweithio gyda gwasanaethau i ddatblygu eu Cynlluniau Gwella Gwasanaethau, rhoi elfen o her, sicrhau bod blaenoriaethau corfforaethol fel cynaliadwyedd a chydraddoldeb wedi'u hymgorffori mewn gwasanaethau a bod cysylltiadau â'r CGC yn cael eu llunio mewn gweithgareddau gwella arfaethedig.

39 Mae'r Cyngor wedi llunio rhaglen wella uchelgeisiol iddo'i hun a chyflëir rhai o'r blaenoriaethau yn fras. Er enghraifft, o ystyried y sefyllfa ariannol gyfredol, byddai set fwy diffiniedig o flaenoriaethau yn ei gwneud yn bosibl i adnoddau cyfyngedig gael eu targedu'n well. Mae hyn yn arbennig o amlwg, gan nad yw'r Cyngor eto wedi integreiddio ei CGC â'r cynllun ariannol tymor canolig na'r newidiadau sydd ar y gweill yn y gweithlu. Yn wir, nid yw strategaethau corfforaethol y Cyngor eto'n gwbl gyson â rhagolwg ariannol y Cyngor ac mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â chamau cynnar hyn. Bydd cyflwyno'r Amcanion Gwella o dan y Mesur yn cynorthwyo'r broses hon.



40 Lluniwyd mesurau a dangosyddion perfformiad ar gyfer pob un o flaenoriaethau'r CGC. Mae'r Cyngor wedi ceisio symud o ddefnyddio dangosyddion statudol yn unig a hynny mewn modd cadarnhaol, gan ddatblygu mesurau sy'n fwy seiliedig ar ganlyniadau i farnu perfformiad. Fodd bynnag, nid yw'r gydberthynas rhwng y mesurau llwyddiant hyn, a'u cysylltiad â'r nod strategol, gwaith arfaethedig a meini prawf llwyddiant, bob amser yn amlwg.

41 Er enghraifft, o dan y flaenoriaeth 'gwella'r ddarpariaeth dai i'n tenantiaid,' mae'r gweithgaredd yn canolbwyntio ar gynyddu darpariaeth tai fforddiadwy yn y fwrdeistref sirol, ond nid oes unrhyw fesurau perfformiad ar y tai fforddiadwy newydd a ddatblygwyd na chynnydd yn nifer y gosodiadau blynyddol. Nid yw'r dangosyddion cyfredol yn cynnig ffordd o fesur perfformiad ar y flaenoriaeth strategol.

42 Gwnaed ymdrechion sylweddol y llynedd i ddatblygu mwy o ddangosyddion yn seiliedig ar ganlyniadau ond mae o hyd orbwyslais ar y broses. Er enghraifft, o dan y thema *cynyddu hyfywedd a bywiogrwydd canol ein trefi* mae'r gwaith arfaethedig yn canolbwyntio ar nifer o brosesau, er enghraifft, cwblhau ceisiadau am arian ac ystyried ffynonellau ariannol eraill. Mae angen i'r prosesau hyn ddangos yn gliriach eu cysylltiad â'r canlyniadau a fwriedir.

43 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen ystyried a yw ei flaenoriaethau strategol yn gyraeddadwy yn yr hinsawdd ariannol gyfredol ac atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng y rhain â'i gynllun ariannol tymor canolig. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor wrthi'n datblygu ei amcanion gwella fel sy'n ofynnol o dan y Mesur Llywodraeth Leol. Mae cwblhau'r broses i ddatblygu'r rhain wedi helpu i amlygu'r angen i fireinio ffocws y Cyngor ar ei feysydd allweddol ar gyfer gwella, ac mae ei flaenoriaethau strategol cyfredol yn eithaf bras eu natur.

**Mae record dda o weithio mewn partneriaeth a thra bod rhai enghreifftiau da o ymgysylltu â dinasyddion, nid yw hyn bob amser wedi bod yn gyson**

44 Mae gan y Cyngor nifer o ddulliau ar waith i ymgysylltu â'u gymunedau ac ymgynghori â hwy. Yn eu plith mae panel safbwyntiau, canolfan gyswllt, arolygon blynyddol o gartrefi, pwyllgor cyswllt y cyngor cymuned, pwyllgor cyswllt y sector gwirfoddol a chynhadledd sefydlog. Yn ddiweddar, sefydlwyd grŵp partneriaeth amlasiantaethol i wireddu cynllun gweithredu ymgysylltu â dinasyddion sy'n nodi sut y bydd y Cyngor a chymunedau'n cydweithio i sicrhau cynnydd ar bedair prif thema'r strategaeth gymunedol.

45 Llywiwyd y gwaith o ddatblygu'r strategaeth gymunedol drwy ymgynghori â'r cyhoedd, sefydliadau preifat a gwirfoddol a chymunedau lleol yn helaeth. Cyhoeddwyd adolygiad cynhwysfawr a ffurfiol o'r pedair blynedd cyntaf o gynnydd wrth gyflawni'r strategaeth yn ddiweddar. Mae'n amlygu'r cyflawniadau yn erbyn pob un o'r amcanion o dan ei phedair thema yn ogystal â blaenoriaethau ar gyfer y pedair blynedd nesaf. Nododd yr adolygiad y meysydd y mae angen eu gwella a datblygwyd cynllun gweithredu sy'n nodi'r gweithgareddau gwella arfaethedig, dyddiadau gweithredu allweddol a pherchenogion. Cynhaliwyd yr adolygiad drwy'r gynhadledd sefydlog sy'n cynnwys dros 80 o sefydliadau.

46 Ceir hefyd rai enghreifftiau da o ymgynghori â rhanddeiliaid. Er enghraifft, wrth bennu'r gyllideb ceisiodd y Cyngor farn y gymuned gyfan drwy ei gyhoeddiad Newsline, a thrwy ddefnyddio ei banel safbwyntiau yn ogystal ag ymgysylltu ag undebau llafur, aelodau ac eraill. Mae strategaethau allweddol fel y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles hefyd yn cyfeirio

at ganlyniadau ymgysylltu â'r gymuned a sut y bwriedir mynd i'r afael â'r rhain wrth symud ymlaen.

**47** Er gwaethaf hynny mae ymgysylltu â'r gymuned yn parhau'n faes i'w wella. Nid thrafodwyd na chytunwyd ar y CGC â'r panel safbwyntiau, ac roedd ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau wrth benderfynu ar flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor yn gyfyngedig. Yn ogystal â hyn mae'r graddau yr ymgysylltir â dinasyddion, er mwyn bwydo eu barn i mewn i'r gwaith o ddatblygu cynlluniau, yn anghyson ym mhob rhan o'r Cyngor, ac nid ydym yn siŵr a yw canfyddiadau'r arolwg blynyddol o gartrefi yn cael eu defnyddio i nodi meysydd i'w gwella ym mhob gwasanaeth.

**48** Bu diffyg sefydlogrwydd ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn ddiweddar, yn bennaf oherwydd newidiadau mewn cynrychiolaeth gan sefydliadau eraill. Mae hyn yn rhannol oherwydd newidiadau ar raddfa fawr sydd wedi digwydd, er enghraifft, mewn gwasanaethau iechyd dros y 12 mis diwethaf. Mae hyn wedi arwain at rywfaint o ddryswch ynghylch rôl y BGLI a ph'un a yw'n rhoi cyfeiriad clir i'r dyfodol. Mae'r Cyngor ar groesffordd gyda nifer o'i bartneriaethau, ac mae effeithiolrwydd cydweithio ag asiantaethau a rhanddeiliaid eraill yn gymysg.

**49** Cyfarwyddwyr y Cyngor sy'n cadeirio neu'n cyd-gadeirio partneriaethau allweddol a bellach maent yn cyflwyno adroddiadau i'r BGLI. Mae'r Cyngor hefyd wedi dechrau ystyried effeithlonrwydd a ffocws partneriaethau. Er enghraifft, cynhaliwyd diwrnod datblygu sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod y partneriaethau strategol statudol yn gweithio'n fwy effeithiol gyda'i gilydd, yn nodi ac yn dileu meysydd dyblygu ar draws partneriaethau, ac yn cytuno ar flaenoriaethau allweddol dichonadwy i'r dyfodol.

**50** Ceir enghreifftiau lle mae partneriaethau yn gweithio'n dda, fel Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerffili, sydd wedi ennill nifer o wobrau cenedlaethol am ei chydweithio, gan gynnwys Rhagoriaeth Cymru. Yn yr un modd, y bartneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, sy'n datblygu nifer o brosiectau ar y cyd i drawsnewid gwasanaethau i ddinasyddion, gan gynnwys prosiect llesgedd Gwent a datblygu tîm rhyddhau o'r ysbyty ar y cyd. [trans. note: not a full sentence!!] Mae cydberthnasau â Bwrdd Iechyd newydd Aneurin Bevan yn datblygu ac mae'r ddau sefydliad yn cydnabod bod angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod cydweithio'n gweithredu mor effeithiol ag y gwnaeth yn y gorffennol i sicrhau gwelliant.

**51** Fodd bynnag, nid yw partneriaethau eraill yn gyson effeithiol. Er bod yr adolygiad diweddar o Strategaeth Gymunedol Caerffili wedi nodi cyflawniadau sylweddol ar wefan y Cyngor, nid yw bob amser yn bosibl dangos pa fuddiannau gwirioneddol y mae gweithio mewn partneriaeth â thrigolion lleol wedi'u sicrhau. Mae angen rhagor o waith i wella'r broses o fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd partneriaethau. Er mwyn cydnabod hyn, ailstrwythurwyd ac aliniwyd Partneriaeth yr Amgylchedd Byw i roi ffocws iddi ac atgyfnerthu ei gwaith wrth symud ymlaen. Byddwn hefyd yn dechrau rhagor o waith ar bartneriaethau ac yn arbennig â'r BGLI a maes iechyd fel rhan o'n gwaith Asesiad Gwella ledled Cymru.



**52** Mae'r Cyngor hefyd yn cydweithio ag asiantaethau eraill y sector cyhoeddus wrth ddatblygu ac ailgyflunio gwasanaethau. Ymhlith y rhain mae'r canlynol:

- Prosiect Gwyrdd (Gwastraff) a gynhelir gan Gaerdydd sy'n canolbwyntio ar gyd-gaffael i leihau risg y farchnad ac osgoi costau caffael cynyddol i gynghorau unigol. Mae hefyd yn cynnwys dull rhanbarthol, economaidd o ailddefnyddio deunyddiau a ailgylchir na chânt eu tirlenwi.

- Prosiect ArtsConnect, a sefydlwyd i greu un gwasanaeth celfyddydol rhanbarthol a rennir i sicrhau arbedion effeithlonrwydd a galluogi gwaith darparu a chynllunio rhanbarthol a ganolbwyntir angenrheidiol. Nod y prosiect yw arbed cyfanswm o 10 y cant o wariant net ledled y saith cyngor partner (£380,000) dros dair blynedd.

- Prosiect Gwella ar y Cyd De-ddwyrain Cymru (SEWIC), gan gynnwys yr uned gomisiynu Plant, sydd â'r nod o wella canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, sicrhau gwerth am arian gwell a chynyddu'r dewis o leoliadau. Mae cydweithio eisoes wedi galluogi'r cynghorau i gyflawni gwerth £0.6 miliwn o arbedion.

**53** Penderfynodd y Cyngor na allai gymryd rhan yn y prosiect gwasanaethau adnoddau dynol a rennir, oherwydd credai na chafodd yr achos busnes ariannol ei brofi. Cred y Cyngor ei fod ar y trywydd cywir i gyflawni'r un lefel o arbedion a nodwyd yn y cynigion gwasanaethau a rennir. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi datblygu model 'cysyniadol' gwasanaethau a rennir, ac ar y cyd â chynghorau cyfagos mae wedi rhoi ar waith ddulliau cydweithredol o ymgysylltu â staff asiantaethau, iechyd galwedigaethol a hyfforddiant.

**Rheolir cyllidebau yn dda, ond mae angen cyflymu'r gwaith o fynd i'r afael â'r diffyg a ragwelir.**

**54** Mae cyllideb y Cyngor wedi cael ei rheoli'n dda yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda rheolau sefydlog clir a chyfarwyddiadau ariannol sefydlog clir ar waith i gefnogi'r gwaith o gyflawni cyllidebau mantoledig ar lefel gyfarwyddiaethol a chorfforaethol. Mae llinellau atebolrwydd clir ar gyfer monitro'r gyllideb, gyda gwasanaethau'n gyfrifol am sicrhau eu bod yn mantoli eu cyllidebau. O fewn strategaeth y gyllideb, amlygir arbedion maes gwasanaeth ar gyfer pob cyfarwyddiaeth ynghyd â'r pwysau ar wasanaethau na ellir ei osgoi, gan gynnwys newidiadau mewn demograffeg, materion gwasanaethau a rhagdybiaethau cynllunio. Pan fydd gwasanaeth wedi tanwario ar ddiwedd y flwyddyn, gellir cadw 50 y cant yn y gwasanaeth a chaiff 50 y cant ei ddychwelyd i'r Gronfa Gyffredinol. Os ceir gorwariant mewn un maes, mae'n ofynnol i benaethiaid gwasanaethau wneud arbedion mewn meysydd eraill i fantoli'r gyllideb.

**55** Ynghyd ag awdurdodau eraill, mae'r Cyngor wedi nodi ei fod yn wynebu pwysau ariannol sylweddol yn y dyfodol. Mae'n datblygu cynllun ariannol tymor canolig y bydd angen iddo nodi cyfres o opsiynau i leihau gwariant refeniw dros y pum mlynedd nesaf, gan gynnwys:

- • Lleihad yn amrywiaeth a'r math o wasanaethau a ddarperir. Bydd hyn yn cynnwys rhoi'r gorau i ddarparu rhai gwasanaethau, yn arbennig mewn meysydd dewisol, a lleihau'r ddarpariaeth gwasanaeth

mewn meysydd statudol a dewisol. Ni wnaed penderfyniadau ar dynnu buddsoddiad yn ôl o wasanaethau eto.

- Cynyddu incwm drwy welliannau mewn cynhyrchu a chasglu refeniw, ystyried cyflwyno trefniadau codi tâl ychwanegol a manteisio'n llawn ar yr holl arian allanol sydd ar gael.

- Manteisio'n llawn ar gyfleoedd i gydweithio a gweithio mewn partneriaeth i arbed costau gan gynnwys ailddylunio gwasanaethau, darparu gwasanaethau mewn ffyrdd gwahanol a chyrchu gwasanaethau i eraill eu darparu.

56 Mae Cyngor yn gweithio ar ei strategaeth ac amserlen ariannol tymor canolig i fynd i'r afael â'r diffyg a ragwelir. Mae rhagor o waith yn cael ei gynnal ar y meysydd hyn, ac eraill, i benderfynu ar sut y bydd yn mynd i'r afael â'r diffyg mewn ariannu. Bydd angen i'r Cyngor ystyried effaith symud adnoddau ar wasanaethau nad ydynt yn flaenoriaeth. Gallai'r effeithiau hyn arwain at leihad mewn ansawdd, cyfyngiadau ar argaeledd a mynediad at wasanaethau, neu hyd yn oed ddileu rhai gwasanaethau yn gyfan gwbl. Bydd angen iddynt hefyd gael eu rheoli'n ofalus a'u halinio ag elfennau strategol allweddol eraill fel cynllunio'r gweithlu a rheoli asedau, os yw lefel yr arbedion sydd eu hangen i'w gwireddu. Bydd y penderfyniadau hyn yn sensitif a heriol yn wleidyddol.

57 Yn draddodiadol, mae'r cysylltiad rhwng cyllidebau a blaenoriaethau'r Cyngor wedi bod yn anffurfiol ac amhenodol. Er enghraifft, er bod dealltwriaeth y bydd y rhagolwg ariannol yn dylanwadu ar gyflawni blaenoriaethau corfforaethol a strategaethau allweddol eraill, ni chafwyd cysylltiad clir rhwng y CGC a'r cynllun ariannol tymor canolig. Yn yr un modd, gallai'r cysylltiad rhwng cyllidebau a blaenoriaethau'r Cyngor gael eu cyfleu'n fwy eglur. Prin iawn y mae adroddiad ar y gyllideb Mawrth 2010, sy'n nodi'r cynllun ariannol tymor canolig dangosol, yn cyfeirio at flaenoriaethau'r Cyngor. Yn yr un modd, nid yw'r cysylltiadau rhwng arbedion a blaenoriaethau wedi'u terfynu, er bod ymgynghori'n mynd rhagddo arnynt. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod cysylltiad clir rhwng blaenoriaethau corfforaethol, cyllidebau a pherfformiad gwasanaethau.

58 Ceir perchenogaeth yn y Tîm Rheoli Corfforaethol o ddull y Cyngor o gynllunio ariannol tymor canolig. Cafwyd ymgysylltu sylweddol ag aelodau wrth ddatblygu'r cynllun ariannol tymor canolig, a bellach mae aelodau'n deall difrifoldeb y sefyllfa ariannol. Mae Grŵp Cynghori ar y Gyllideb ar waith, i sicrhau bod aelodau yn rhan lawn â gwaith rheoli ariannol, cynllunio a'r broses gwneud penderfyniadau. Mae Grŵp y Blaid Lafur wedi dewis peidio â bod yn rhan o'r broses hon, ac o ganlyniad rhoddwyd trefniadau amgen ar waith i sicrhau bod y grwpiau gwleidyddol gwahanol yn cael gwybodaeth reolaidd am sefyllfa'r gyllideb.

59 Gwnaed llawer o waith paratoi fel bod gan y Cyngor ddealltwriaeth well o'i asedau. Fodd bynnag, nid oes ganddo Gynllun Rheoli Asedau strategol i resymoli na gwella ei asedau. Bwriedir dechrau ymgynghori ar Gynllun Rheoli Asedau yn yr hydref. Mae'r Cynllun Rheoli Asedau cyfredol yn canolbwyntio'n bennaf ar yr ôl-groniad o faterion cynnal a chadw ac nid yw'n integredig â strategaethau allweddol eraill fel cynllunio'r gweithlu. Er ei fod yn nodi'r angen am £45 miliwn i fynd i'r afael â'r ôl-groniad cyfredol o atgyweiriadau, mae'n amlwg nad oes



gan y Cyngor yr adnoddau i ddiwallu'r anghenion hyn. Mae'r Cyngor ar gam cynnar o'r gwaith o lunio strategaeth i fynd i'r afael â'r materion hyn ond bydd yn canolbwyntio ei ymdrechion ar drosglwyddo rhwymedigaethau asedau, datblygu canolfannau gweithredu ar y cyd ag asiantaethau eraill i leihau costau gweithredu, a gwerthu asedau i wireddu derbyniadau cyfalaf. Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i sicrhau bod ei gynlluniau rheoli asedau yn ategu'r gwaith ar gynlluniau ariannol tymor canolig a datblygu'r gweithlu.

**Mae trefniadau perfformiad, prosiectau a rheoli risg ar waith ond mae angen eu hatgyfnerthu i gefnogi gwelliant pellach**

**60** Mae elfennau fframwaith rheoli perfformiad ar waith. Mae Aelod Cabinet dros berfformiad sydd bellach yn cwrdd yn rheolaidd ag Aelodau'r Cabinet a Chyfarwyddwyr i herio eu perfformiad. Yn ddiweddar mae'r Cabinet a'r Tîm Rheoli Corfforaethol hefyd wedi trafod sut y gellid cryfhau trefniadau rheoli perfformiad.

**61** Cynhelir pwyllgorau penodol i graffu ar berfformiad hefyd ddwywaith y flwyddyn ym mhob un o'r pum pwyllgor craffu. Mae'r Cyngor yn defnyddio Ffynnon i roi darlun o berfformiad gwasanaeth ac mae newydd ddechrau cyflwyno adroddiadau eithriadau i amlygu perfformiad sy'n dirywio neu danberfformiad mewn gwasanaethau. Mae'r Cyngor yn cydnabod nad oes fawr o ffocws ar ddinasyddion ynghyd â gwybodaeth gyfyngedig iawn ar effaith ei waith ar ddinasyddion a chymunedau, boddhad a phrofiad defnyddwyr. Nid yw gorddibyniaeth ar ddangosyddion perfformiad cenedlaethol bob amser yn briodol, ac mae'r Cyngor wedi ceisio datblygu dangosyddion mwy lleol.

**62** Yn yr un modd, mae diwylliant o reoli perfformiad yn datblygu ond nid yw wedi'i ymgorffori'n llawn o fewn y Cyngor. Ar nodyn cadarnhaol, mae'r Uned Rheoli Rhaglenni yn cyflawni rôl herio mewnol, gan gwrdd â phenaethiaid gwasanaethau a rheolwyr o leiaf bob chwarter i adolygu Cynlluniau Gwella Gwasanaethau, risgiau a Dangosyddion Perfformiad. Mae'r defnydd o Ffynnon hefyd wedi helpu i atgyfnerthu atebolrwydd a sicrhau her fwy o ran perfformiad, ond awgryma cyfweliadau â swyddogion fod angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod gan reolwyr y sgiliau cywir a'r hyder i ddwyn eu staff i gyfrif. O ganlyniad, mae hyfforddiant a chymorth ychwanegol yn cael eu darparu i ddatblygu sgiliau rheolwyr yn y maes hwn. Mae gan y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ei Huned Rheoli Rhaglenni ei hun, sy'n llunio adroddiadau perfformiad misol ar gyfer ei Thîm Rheoli Isadrannol. Bydd Aelod Cabinet hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Tîm Rheoli Isadrannol. Mae'r uned yn rhoi arfarniad beirniadol o berfformiad, gan amlygu perfformiad da a meysydd i ganolbwyntio arnynt.

**63** Mae gan y Cyngor strategaeth TGCh newydd, a ddatblygwyd gan ystyried y pwysau ariannol cyfredol. Mae gan y Cyngor reolaethau da ar waith o ran TGCh. Er enghraifft, mae cynllun adfer ar ôl trychineb TGCh ar waith a gaiff ei brofi'n rheolaidd. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r gwaith ar weithio hyblyg neu ystwyth ac mae'r Cyngor yn parhau i ddarparu'r mwyafrif o'i wasanaethau o fewn strwythur swyddfa traddodiadol.

**64** Mae dull cyngor cyfan o reoli prosiect a ategir gan hyfforddiant, canllawiau a'r defnydd o dempledi safonol. Mae'n broses gadarn ond nid yw wedi'i hymgorffori'n gyson ym mhob rhan o'r

sefydliad gyda rhai gwasanaethau, megis peirianneg, yn fwy cyfforddus â dull rheoli prosiect strwythuredig, nag eraill. Caiff prosiectau allweddol eu monitro gan Dîm Rheoli Corfforaethol.

65 Mae'r Cyngor yn parhau i ddefnyddio'r dull Asesiad Risg ar y Cyd o nodi a rheoli risg. Mae gwasanaethau'n nodi risgiau gweithredol wrth ddatblygu eu Cynlluniau Gwella Gwasanaethau blynyddol, ond mae ansawdd yr allbynnau'n amrywio ac nid ydynt bob amser yn gynhwysfawr nac yn gadarn. Mae tuedd ymhlith gwasanaethau i amlygu risg a pheidio â chanolbwyntio ar weithgareddau lliniaru neu atal. Mae cofrestr risg gorfforaethol ar waith a chaiff hon ei diweddaru bob blwyddyn. Mae'r bygythiadau a nodwyd yn bosibl ac yn gyfredol, ac yn ddiweddar nodwyd sawl bygythiad gwahanol mewn perthynas â'r rhagolwg ariannol a newidiadau sefydliadol y bydd angen eu gwneud.

## Mae'r Cyngor yn wynebu problemau mawr o ran cynllunio'r gweithlu

66 Bu'n rhaid i wasanaeth adnoddau dynol y Cyngor ganolbwyntio ar gwblhau statws unigol ac arfarnu swyddi. Llwyddodd y Cyngor i negodi cytundeb statws unigol ar ei strwythur tâl a graddio, ac mae wedi gwneud cynigion i dros 2,500 o gyflogeion er mwyn lleihau ei atebolrwydd cyflog cyfartal. Roedd y cyd-drafodaethau tâl a graddio diwygiedig yn llwyddiannus, a llofnodwyd cytundeb ar y cyd gan bob parti, a rhoddwyd strwythur tâl a graddio diwygiedig ar waith i staff y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar ddechrau'r flwyddyn ariannol gyfredol.

67 Yn ddiweddar, adolygwyd gwasanaeth Adnoddau Dynol y Cyngor, a bellach mae'r Cyngor yn symud at wasanaeth adnoddau dynol a arweinir yn fwy strategol, yn hytrach na'i ddull gweinyddol cyfredol. Mae'r swyddogaeth adnoddau dynol wedi bod yn hwylusydd, drwy alluogi rheolwyr gwasanaeth i achub y blaen ar y rhan fwyaf o agweddau ar waith rheoli a datblygu adnoddau dynol, ac mae wedi canolbwyntio'n bennaf ar gynghori a chefnogi rheolwyr llinell wrth iddynt ddelio â materion sy'n ymwneud â chyflogeion o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, bydd newidiadau sy'n deillio o'r adroddiad yn arwain at staff adnoddau dynol proffesiynol yn eistedd mewn cyfarwyddiaethau a chefnogi penaethiaid gwasanaethau i reoli'n strategol anghenion staffio eu gwasanaeth yn y dyfodol. Bydd y dull arfaethedig hwn yn gofyn am setiau sgiliau gwahanol iawn, ac ni ellir diystyru'r newidiadau a ddaw yn ei sgîl i'r unigolion sy'n cyflawni'r dyletswyddau hyn a'r gwasanaethau eu hunain.

68 Mae'r Cyngor yn wynebu nifer o broblemau sylweddol o ran adnoddau dynol i'w datrys. Ymhlith y rhain mae'r canlynol:

- Mae absenoldeb oherwydd salwch yn parhau'n broblem fawr ac mae gan y Cyngor y perfformiad datganedig gwaethaf o blith 22 awdurdod lleol Cymru. Er bod gweithdrefnau newydd wedi cael eu cyflwyno ym mis Ebrill 2010, gan gynnwys polisïau newydd o ran disgyblu, cwynion a rheoli presenoldeb, mae'r rhain yn weddol safonol eu cwmpas a bydd angen sicrhau rheoli mwy rhagweithiol i leihau absenoldeb oherwydd salwch.

- Angen i leihau'r gweithlu. Dilëwyd tua 140 o swyddi eisoes drwy wastraff naturiol a rheoli swyddi gwag.



- Mae'r Cyngor yn cydnabod bod traean o'i weithlu dros 50 oed a bydd angen iddo gynnal archwiliad sgiliau i sicrhau bod ganddo ddarlun llawn o'r sgiliau y mae eu hangen arno, unwaith y bydd y blaenoriaethau gwasanaeth sy'n deillio o gynllun ariannol tymor canolig y Cyngor yn hysbys.

- Rhoi'r sgiliau angenrheidiol i reolwyr reoli mewn amgylchedd lle ceir newid sylweddol. Mae hyn yn arwyddocaol gan fod rheolwyr yn gyfrifol am reoli perfformiad staff, monitro absenoldeb a rhoi strategaethau adnoddau dynol ar waith. Mae rheolwyr canol mewn swyddi hollbwysig yn y sefydliad, ac mae angen sicrhau y cânt eu cynnwys a'u helpu i sicrhau'r newidiadau y bydd angen i'r Cyngor eu gwneud yn y dyfodol. Mae'r Cyngor wedi dechrau cynllun peilot gyda Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru (RhNgCC) i gynnal rhaglen hyfforddi a mentora i helpu i fynd i'r afael â hyn.

**69** Mae strategaeth rheoli pobl ar waith sy'n nodi disgwyliadau'r staff a'r sefydliad. Ar hyn o bryd nid yw'n cynnwys unrhyw gynllun gweithredu sy'n rhoi manylion am y camau y mae'n rhaid eu cymryd i sicrhau gwelliant, pwy fydd yn arwain y broses a phryd y cânt eu cyflawni. Bydd angen i'r strategaeth fod yn gysylltiedig â'r gwaith newydd ar gynllunio'r gweithlu er mwyn sicrhau newidiadau i wasanaethau sy'n deillio o'r cynllun ariannol tymor canolig.

**70** I debyg i awdurdodau eraill, mae angen i'r Cyngor sicrhau ei fod yn integreiddio gwaith cynllunio'r gweithlu, o ran y broses ac amseru, â phrosesau cynllunio corfforaethol eraill, yn arbennig cyllid, asesu rheolwyr, rheoli perfformiad a chynllunio'r gweithlu. Ni wnaed hyn hyd yn hyn ac mae'n parhau'n wendid.

**71** Ar nodyn cadarnhaol, nid yw'r Cyngor wedi ceisio lleihau faint o arian a neilltuwyd ar gyfer hyfforddiant eleni, er ei bod wedi bod yn destun toriadau yn y gorffennol. Fodd bynnag, er gwaethaf proffil oedran staff y Cyngor, nid oes rhaglenni ar waith yn fewnol sy'n canolbwyntio'n benodol ar ddatblygu arweinwyr a rheolwyr.

**72** Gwnaed gwaith sylweddol i adolygu a diweddaru polisïau adnoddau dynol a ffurflenni i fynd i'r afael â gwendidau gweithredol a nodwyd o ran rheoli a chefnogi staff. Er enghraifft, mabwysiadwyd system arfarnu staff newydd yn ddiweddar, ac mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol wedi chwarae rhan weithredol yn y gwaith o'i hyrwyddo a'i chyflwyno. Fodd bynnag, câi'r ffurflenni arfarnu fudd o gynnwys cymwyseddau ymddygiadol yn y cynllun er mwyn cael cydbwysedd rhwng 'beth' a 'sut'.

**73** Fodd bynnag, ni chyflwynwyd y rhain fel rhan o raglen datblygu sefydliadol gynhwysfawr, ac, yn y dyfodol, bydd angen ystyried materion fel ymgorffori'r diwylliant perfformiad newydd, sut y caiff y newid ei reoli a sut y caiff rheolwyr llinell a staff eu hannog i ddefnyddio'r adnoddau perfformiad newydd. Mae'r gwaith o adolygu polisïau, dulliau a chyngor adnoddau dynol yn ddechrau ar y broses, ond ar ei ben ei hun nid yw'n ddefnyddiol iawn oni wneir gwaith ar y prosesau datblygu sefydliadol system gyfan ehangach sy'n angenrheidiol er mwyn cefnogi newid diwylliant.

**74** Mae'r Cyngor yn llunio fframwaith cymwyseddau rheoli ac mae'n cydnabod bod angen gwneud rhagor o waith arno, yn arbennig o ran casgliadau'r ymarfer arfarnu swyddi.